

Llais Gorllewin Cymru
Ystafell 5, Llawr 1
Tŷ Myrddin
Heol Yr Hen Orsaf
Caerfyddin SA31 1LP

Llais West Wales
Suite 5, Floor 1
Tŷ Myrddin
Old Station Road
Carmarthen SA31 1LP



Eich llais mewn iechyd | Your voice in health
a gofal cymdeithasol | and social care

13 Chwefror 2024

At sylw:

Jill Patterson Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol,
Gofal Cymunedol a Thymor Hir

Anfonwyd drwy e-bost jill.paterson@wales.nhs.uk

Annwyl Jill

Ymateb Llais i ymgysylltiad Talacharn

Cefndir

Dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wrthym fod Meddygfa Coach and Horses wedi gwneud cais i gau ei Feddygfa Gangen yn Nhalacharn. Maint rhestr y practis yw 7252 o bobl, ac mae traean o restr y practis yn byw rhwng Talacharn a Phentywyn.

Ar hyn o bryd mae'r Practis yn darparu Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol i'w gleifion cofrestredig o ddau safle: prif safle yn y Coach and Horses yn Sanclêr a safle cangen yn Nhalacharn.

Prif Weithredwr/Chief Executive: **Alyson Thomas**

Cyfarwyddwr Rhanbarthol (Llais Gorllewin Cymru)/Regional Director (Llais West Wales): **Donna Coleman**

E-bost | E-mail: westwalesenquiries@llaiscymru.org

Ffôn | Tel: 01646 697 610

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi wrth ymateb i'ch gohebiaeth.
We welcome correspondence in Welsh and English. If you write to us in Welsh, we will answer in Welsh. This will not lead to a delay in responding to your correspondence.

Dechreuodd gwaith ar unwaith gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i ddeall y sefyllfa sy'n dod i'r amlwg a sut y dylid cynllunio a strwythuro ymgysylltu â'r cyhoedd.

Rôl Llais mewn Newid Gwasanaeth pan gynigir newidiadau.

Rhaid i'r GIG ac awdurdodau lleol gynnwys pobl wrth iddynt gynllunio, datblygu a dylunio gwasanaethau o'r dechrau fel y gallant ddeall anghenion pobl yn awr ac yn y dyfodol.

Rôl Llais yw helpu i wneud yn siŵr eu bod yn gofyn i chi am eich barn ac yna'n meddwl ac yn ymateb i'r hyn rydych chi'n ei ddweud.

I gael manylion llawn rôl Llais yn y newid i wasanaethau, gweler:

<https://www.llaiscymru.org/ein-rol-yn-newid-gwasanaethau>

Proses ymgysylltu.

- Drwy drafodaethau gyda'r Bwrdd Iechyd, buom yn gweithio gyda'n gilydd i gytuno ar gynllun ymgysylltu â'r cyhoedd.
- Roedd y cyfnod ymgysylltu yn rhedeg o 1 Tachwedd 2023 tan 8 Rhagfyr 2023.
- Roedd y broses ymgysylltu yn defnyddio cyfryngau safonol, cyfryngau cymdeithasol, poster, a dulliau arolwg papur/rhithwir a adawyd yn y ddwy feddygfa, fferyllfeydd, ac aethpwyd ag arolygon hefyd i gartrefi gofal yn yr ardal.
- Defnyddiwyd Hwb Cyfathrebu penodedig y Bwrdd Iechyd i ateb galwadau ffôn.
- Roedd gan Llais yr arolwg ar eu gwefan, a defnyddiwyd dulliau cyfryngau cymdeithasol hefyd i hyrwyddo'r arolwg a digwyddiadau ymgysylltu.
- Cwblhaodd pobl yr arolwg ar wefan Llais, a rhannwyd hwn yn ddienw gyda'r Bwrdd Iechyd.
- Cynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu yn Nhalacharn ar 28 Tachwedd 2023 gyda dros 115 o bobl yn bresennol.
- Cynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu pellach ar 6 Chwefror 2024 gyda thua 125 o bobl yn bresennol.

Prif Weithredwr | Chief Executive: **Alyson Thomas**

Cyfarwyddwr Rhanbarthol (Llais Gorllewin Cymru)/Regional Director (Llais West Wales):

Donna Coleman

E-bost | E-mail: westwalesenquiries@llaiscymru.org

Ffôn | Tel: **01646 697 610**

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi wrth ymateb i'ch gohebiaeth.

We welcome correspondence in Welsh and English. If you write to us in Welsh, we will answer in Welsh. This will not lead to a delay in responding to your correspondence.

- Byddai barn pobl yn cael ei bwydo i mewn i'r ymatebion cyffredinol.

Yr hyn a ddywedodd pobl yn ystod yr ymgysylltiad.

Daeth rhai themâu eang i'r amlwg yn y digwyddiadau hyn:

- Roedd pobl yn pryderu ar 1 Ebrill 2024 na fyddai ganddynt unrhyw wasanaethau meddygol yn Nhalacharn.
- Roedd pobl yn bryderus ynghylch eu meddyginiaeth.
- Teimlai rhai y gallai Coach and Horses yn Sanclêr fod yn hynod o brysur gyda thagfeydd ar rai adegau ac y byddai'n waeth pe bai meddygfa Talacharn yn cau.
- Roedd pobl eisiau i wasanaethau meddygol gael eu darparu o bractis Talacharn ac yn meddwl y gellid datblygu gwasanaethau eraill o'r safle hwnnw, gydag Iechyd Cyhoeddus, y Bwrdd Iechyd a'r Trydydd sector
- Heb os, mae pryder mawr ynghylch teithio, gan ddweud nad oedd y llwybrau bysiau a'r amserlenni yn dda yn yr ardal honno ac nad oeddent yn cyd-fynd ag amseroedd apwyntiadau. Mae rhai pobl yn nodi y byddai'n rhaid iddynt aros am 2 awr am daith yn ôl.
- Dywedodd pobl nad oeddent yn cael cyfle i gael apwyntiadau yn Nhalacharn gan nad oedd hyn yn cael ei gynnig wrth ffonio am apwyntiad.
- Dywedodd pobl hefyd fod meddygfa Talacharn wedi cael "llawer o ddefnydd" cyn COVID
- Teimlai pobl pe bai'r feddygfa'n cau yna byddai'r fferyllfa yn cau nesaf.
- Un o'r agweddau mwyaf diddorol o'r ymgysylltu oedd bod cyfran fach o bobl yn poeni llai am y cynnig i symud meddygon yn barhaol o'r safle, ac yn fwy pryderus y byddai'n cael ei golli fel adnodd gofal iechyd mwy cyffredinol i'r gymuned. Teimlai nifer o bobl y gallai clinigau a phresenoldeb gweithwyr iechyd proffesiynol eraill fod yn fuddiol. Wedi dweud hyn, roedd y rhan fwyaf o bobl eisiau meddyg teulu o leiaf 3 bore'r wythnos.
- Dywedodd rhai pobl y gallai'r adeilad elwa o baent ffres ac yn teimlo y gallai'r gymuned helpu gyda hyn.

Prif Weithredwr | Chief Executive: **Alyson Thomas**

Cyfarwyddwr Rhanbarthol (Llais Gorllewin Cymru)/Regional Director (Llais West Wales):

Donna Coleman

E-bost | E-mail: westwalesenquiries@llaiscymru.org

Ffôn | Tel: **01646 697 610**

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi wrth ymateb i'ch gohebiaeth.

We welcome correspondence in Welsh and English. If you write to us in Welsh, we will answer in Welsh. This will not lead to a delay in responding to your correspondence.

Beth oeddem ni'n ei feddwl o'r broses ymgysylltu

Bu'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda Llais yn y camau cychwynnol ac yn cyfathrebu'n effeithiol, gan gynnwys cyfarfodydd ymgysylltu "dal i fyny" wythnosol. Roedd y Bwrdd Iechyd a'r Practis wedi ymrwmo i'r broses, gan fod yn agored ac yn dryloyw gyda'r cyhoedd ac egluro'r rhesymeg y tu ôl i'r cais. Daeth nifer dda i'r digwyddiad gyda'r tîm Gofal Sylfaenol, Meddygon Teulu o'r Feddygfa ynghyd â staff Llais a gwirfoddolwyr. Cipiodd y Bwrdd Iechyd a Llais sylwadau a wnaed ar gyfryngau cymdeithasol. Rhannodd Llais gyda'r Bwrdd Iechyd yn ddiennw, yr ymatebion a'r themâu a ddaeth iddynt ar y rhyngwyd neu'n ysgrifenedig. Cynhaliwyd ail ddigwyddiad heb Feddygon Teulu yn bresennol gan fod y gymuned yn teimlo y gallent siarad yn fwy agored heb Feddygon Teulu yn bresennol.

Ein casgliad

Roedd pobl yn bryderus ac yn angerddol am eu gwasanaethau gofal iechyd yn Nhalacharn a'r ardaloedd cyfagos, a daeth hyn i'r amlwg yn y digwyddiad ymgysylltu, o nifer o lythyrau ac e-byst yr oedd Llais wedi'u derbyn.

Ni all Llais gymryd safiad arbenigol ar logisteg gymhleth a heriol darpariaeth meddyg teulu na chynhyrchu atebion ar gyfer ardal. Rydym yn canolbwyntio ar sicrhau bod ein casgliadau yn seiliedig ar effaith y cynnig i newid gwasanaethau ar y bobl yr effeithir arnynt, gan sicrhau bod yr effeithiau hyn yn cael eu deall a'u hymgorffori yn y penderfyniadau a wneir.

Ar ôl ystyried y wybodaeth sydd ar gael, ac adborth y cyhoedd yn ystod y cyfnod ymgysylltu, mae Llais yn gwneud y pwyntiau a ganlyn:

Cais cau Meddygfa Gangen Talacharn a barn cryno Llais

Prif Weithredwr | Chief Executive: **Alyson Thomas**

Cyfarwyddwr Rhanbarthol (Llais Gorllewin Cymru)/Regional Director (Llais West Wales):

Donna Coleman

E-bost | E-mail: **westwalesenquiries@llaiscymru.org**

Ffôn | Tel: **01646 697 610**

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi wrth ymateb i'ch gohebiaeth.

We welcome correspondence in Welsh and English. If you write to us in Welsh, we will answer in Welsh. This will not lead to a delay in responding to your correspondence.

Mae Llais yn credu y dylai meddygfa gangen Talacharn **aros ar agor** ac yn hygyrch i'r cyhoedd oherwydd bod traean o'i restr practis yn byw rhwng Talacharn a Phentywyn. Mae gan Dalacharn boblogaeth sy'n heneiddio gyda phobl yn symud i'r ardal i ymddeol, ynghyd â datblygiadau tai newydd yn ogystal â mewnlifiad o dwristiaid yn ystod misoedd yr haf.

Rydym yn cytuno bod cydbwysedd anodd i'w gyflawni rhwng practisau sy'n gweithredu'n rhagweithiol ac yn bendant i sicrhau eu cynaliadwyedd hirdymor i gleifion yn erbyn brwydrau logistaidd heriol parhaus o redeg dau neu fwy o safleoedd o ddydd i ddydd. Gan gydnabod hyn, teimlwn fod angen gwneud mwy i archwilio sut y gall meddygfa gangen Talacharn ddarparu gofal i bobl leol.

“Ffit strategol” a “Gofal yn Nes at Adref”

Yn ei strategaeth “Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach” mae'r Bwrdd Iechyd yn anelu at ddarparu gwasanaethau iechyd sy'n cadw pobl yn iach, yn atal afiechyd neu'n gwaethygu afiechyd. Mae hefyd yn dweud ei fod yn gweithio mewn cymunedau i ddarparu cymorth a gofal mwy cydgysylltiedig “mor agos i adref ag sy'n bosib”.

Fel pwynt cyffredinol, mae Llais yn pryderu y bydd cau meddygfeydd cangen yn cymryd gofal ymhellach oddi cartref ac adlewyrchwyd hyn yn yr hyn oedd gan lawer o bobl i'w ddweud.

Felly, mae Llais yn teimlo bod unrhyw achos o gau gofal sylfaenol yn creu risg o ynysu cymuned oddi wrth “ddrws ffrynt” gwasanaethau'r GIG ac mai dim ond fel dewis olaf y dylid ei ystyried yn wyneb materion cynaliadwyedd **cryf**.

Yr eiddoch yn gywir



Helen Williams

Cyfarwyddwr Rhanbarthol Dros Dro

Prif Weithredwr | Chief Executive: **Alyson Thomas**

Cyfarwyddwr Rhanbarthol (Llais Gorllewin Cymru)/Regional Director (Llais West Wales):

Donna Coleman

E-bost | E-mail: **westwalesenquiries@llaiscymru.org**

Ffôn | Tel: **01646 697 610**

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi wrth ymateb i'ch gohebiaeth.

We welcome correspondence in Welsh and English. If you write to us in Welsh, we will answer in Welsh. This will not lead to a delay in responding to your correspondence.